

Cymdeithas Mudiadau

Gwirfoddol Penybont

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.3 Creu polisi gwirfoddoli



Cyflwyniad

I'r rheiny sy'n ystyried cynnwys gwirfoddolwyr am y tro cyntaf, gweler Taflen Wybodaeth WCVA, *Datblygu strategaeth gwirfoddolwyr* (Rhif 4.2). Mae'r daflen wybodaeth hon ar gyfer mudiadau sydd wedi canfod rôl i wirfoddolwyr ac sy'n barod i ddatblygu eu polisiau gwirfoddoli.

Os ydych yn cynnwys gwirfoddolwyr yn eich mudiad, mae rhoi polisi wirfoddoli ar waith yn ddefnyddiol. Gall polisi o'r fath ddarparu fframwaith i'ch mudiad er mwyn sefydlu rhaglen wirfoddoli.

Beth yw diben y polisi?

Mae polisi yn darparu set o egwyddorion arweiniol i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau, gall fod o gymorth i sicrhau dulliau gweithredu cyson ac i ddiffinio'r rolau a'r berthynas rhwng rhanddeiliaid amrywiol y mudiad.

Beth ddylai ei gynnwys?

Datganiad yn egluro pam mae'r mudiad yn cynnwys gwirfoddolwyr – nodi'r egwyddorion sy'n sail i'ch penderfyniad i gynnwys gwirfoddolwyr, sut y bydd yn elwa'r mudiad a'r gymuned ehangach, yn ogystal â'r gwirfoddolwyr eu hunain. Gall datganiad cadarnhaol fod yn ffordd dda iawn o ddangos bod eich mudiad chi'n un gofalgar sy'n gwerthfawrogi ei wirfoddolwyr yn fawr.

Diffiniad o wirfoddoli - Dyma'r diffiniad a dderbynnir yn gyffredin ledled y Deyrnas Unedig ac a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru:

'Mae gwirfoddoli'n fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth. Mae'n golygu ymrwymo amser ac egni er budd y gymdeithas a'r gymuned a gall fod ar sawl ffurf. Gwneir y gwaith o wirfoddol ac o ddewis, heb boeni am elw ariannol.'

Cwmpas gwirfoddoli – dylai gynnwys datganiad bras am yr ystod o weithgareddau a beth yw rhan gwirfoddoli yn y mudiad ac yn bwysicach, efallai, ble mae'r ffin rhwng gwirfoddoli a chyfrifoldebau cyflogedig. Os yw'ch mudiad hefyd yn cynnal interniaethau, lleoliadau gwaith neu gynlluniau di-dâl eraill dylid nodi a yw unigolion yn

y cynlluniau hyn yn cael eu cynnwys yn y polisi gwirfoddoli ac i ba raddau, ynteu a oes yna bolisiâu perthnasol eraill ar waith.

Ymrwymiad i amrywiaeth – nodi sut y caiff gwirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol eu hannog, eu croesawu a'u cefnogi.

Cyfrifoldebau'r mudiad tuag at wirfoddolwyr – datganiadau cyffredinol mewn perthynas ag ymsefydlu, hyfforddi, cefnogi a goruchwyllo ac ati, – gan sicrhau bod yna ddealltwriaeth gyffredin, safonau cyffredin o ran arferion ar draws y mudiad a bod gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol fel cyfranogwyr gweithgar yn eich mudiad.

Cyfrifoldebau gwirfoddolwyr – nodi lefel y broffesiynoliaeth rydych yn ei mynnu gan wirfoddolwyr, er engraifft, o ran ymddygiad, gwisg, prydlondeb, gofynion adrodd, gonestrwydd, cyfrinachedd ac ati.

Recriwtio a Sgrinio – nodi camau'r broses recriwtio a dethol, gan gynnwys a oes angen geirdaon neu wiriadau gan yr heddlu. Dweud beth fydd yn digwydd os ystyrir bod gwirfoddolwyr yn anaddas ar gyfer rôl benodol.

Gwybodaeth berthnasol arall – enwi polisiâu eraill y mudiad sydd hefyd yn berthnasol i wirfoddolwyr, megis cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, diogelu data, polisi / gweithdrefnau ar gyfer adennill mân dreuliau, a manylion yswiriant (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu amodau yn yr yswiriant a ddarperir)

Torri dadleuon – gweithdrefnau ar gyfer yr hyn sy'n digwydd pan geir anghydfodau neu wahaniaeth barn, gan ddangos bod y mudiad wedi ymrwymo i wrando ar anghydfodau a'u datrys yn gyflym ac yn gyfeillgar.

Gwybodaeth bellach

Gellir lawrlwytho **Polisi Gwirfoddoli Enghreifftiol** [yma](#)

Mae'r Safon [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) (Dangosydd 1.1) yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau gael polisi ysgrifenedig ar gynnwys gwirfoddolwyr.

WCVA

www.wcva.org.uk/volunteering

Canolfan Wirfoddoli Leol

www.volunteering-wales.net

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont

112-113 Heol y Fasnach , Maesteg , Pen-y-Bont ar Ogwr, CF34 9DL

Elusen Gofrestredig: 1146543 Rhif Cwmni: 07691764

Ffôn: 01656 810400

bavo@bavo.org.uk

Ffacs: 01656 812151

www.bavo.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 16/07/2014